No.

# PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, J.E. Charles, H.C. Hamilton, M.J. Hooper ac M.J.G. Morgan.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 332 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 333 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

## 334 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorwyr J.E. Charles a P Drake ddiddordeb yn eitemau 8 a 10 ar yr agenda (Cynnig Perllan Gymunedol Tregatwg) sef eu bod yn Aelodau o Gyngor Tref y Barri a gadawsant y cyfarfod cyn i'r materion gael eu hystyried.

## 335 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2021/22 (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan Reolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth. Pwrpas yr adroddiad oedd ystyried yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel sy'n ofynnol dan adran 162 o Ddeddf Elusennau 2011.

Gwerth net y gronfa ar 31 Mawrth 2022 oedd £5.255 miliwn, sef cynnydd o £21 mil o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod 2021/22, roedd gwarged o £4 mil yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig. Roedd y dyraniad grantiau yn £46 mil yn ystod y flwyddyn, a dyrannwyd £41 mil yn ystod y flwyddyn, gyda £5 mil yn cael ei gario ymlaen i'w ddyrannu yn 2022/23. Gwerth y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn oedd £1.878 miliwn.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno ar ffurf ddrafft, cyn cael eu harchwilio'n annibynnol gan Archwilio Cymru ac yna eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau, sef 31 Ionawr 2023. Amlygodd hefyd dri gwelliant i'w gwneud i'r Adroddiad Blynyddol atodol (fel yr amlinellir isod).

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan y swyddog yn y cyfarfod, fe wnaeth y pwyllgor wedyn:

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2021/22, fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad, yn amodol ar y newidiadau a ganlyn, ac awdurdodi'r Cadeirydd i'w lofnodi ar ran yr Ymddiriedolwyr:

- O dan y polisi buddsoddi ar dudalen 5 mae'r ail frawddeg yn mewnosod "Evelyn Partners (yn flaenorol" Tilney Financial Planning Limited) …
- Tudalen 11 - dylai cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol fod yn £26,000 ac o dan Gronfa Anghyfyngedig dylai cyfanswm cronfeydd elusen fod yn £124,000
- Tudalen 13 – Dylai'r Incwm Buddsoddi a ddelir gyda Tilney ar gyfer 2021/22 fod yn £31,895.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

336 DIWEDDARIAD BUDDSODDI (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan Reolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth. Pwrpas yr adroddiad oedd bwrw ymlaen â chynigion Strategaeth Buddsoddi mewn Ystadau Deddf yr Eglwys yng Nghymru.

Roedd gan Ymddiriedolaeth Deddf yr Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd £1.732 miliwn (£1.878 miliwn ar 31 Mawrth 2022) mewn buddsoddiadau a reolwyd yn ôl disgresiwn Evelyn Partners (Tilney Financial Planning Limited gynt). Roedd gan y Comisiwn Elusennau ganllawiau helaeth ar ddyletswydd gofal yr ymddiriedolwyr ar gyfer buddsoddiadau, gan gynnwys cyfrifoldeb i adolygu trefniadau buddsoddiadau a rheoli buddsoddiadau. Yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2022, roedd y pwyllgor wedi cymeradwyo cynnig i benodi Link Group, sef cynghorwyr rheoli'r trysorlys Cyngor Bro Morgannwg, i gefnogi swyddogion i nodi cymysgedd addas o gronfeydd ar gyfer buddsoddi.

Roedd Link wedi cynnal rhai adolygiadau ystadegol ac wedi dosbarthu holiaduron i'w cwblhau i restr hir o gronfeydd buddsoddi a oedd yn bodloni meini prawf bras cyd-gronfa a fyddai'n addas ar gyfer buddsoddiad elusennol o lai na £2 miliwn. Nododd canlyniad yr adolygiad hwn CCLA fel y perfformiwr mwyaf addas yn y dadansoddiad hwn.

Yng nghyd-destun yr amgylchiadau economaidd ansicr presennol, roedd amseriad y symudiad hwn yn eithaf hanfodol a byddai angen ceisio cyngor ar amseriad tynnu allan ac amseriad ymrwymo i'r buddsoddiad yn CCLA.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, ychwanegodd y Cynghorydd Champion y dylai'r cyngor roi ystyriaeth gref i'r opsiwn cronfa foesegol, ac y dylai'r pwyllgor fod yn ofalus wrth fuddsoddi, wrth fod o dan ddyletswydd hefyd i geisio gwneud enillion, lle bo hynny'n bosibl.

Holodd y Cynghorydd Hooper pa gostau trafodiadau fyddai'n gysylltiedig â symudiad posibl i fuddsoddiadau newydd, ac a oedd unrhyw gymalau cosb yn gysylltiedig â gadael y trefniant presennol gydag Evelyn Partners. Ar y pwynt hwn, dywedodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth fod y cyngor fel arfer wedi wynebu costau trafodiadau pan oedd wedi ymrwymo i fuddsoddiadau newydd yn flaenorol, ac y byddai'n egluro'r sefyllfa ar hyn, ac yn cadarnhau manylion unrhyw gostau o'r fath y gellid eu cael neu gostau yn sgil ail-fuddsoddi i'r pwyllgor.

Ychwanegodd y cadeirydd wedyn, o ystyried ansefydlogrwydd y farchnad ac ansefydlogrwydd yr amodau economaidd presennol, mai opsiwn hynod ofalus oedd buddsoddi dros dro mewn arian parod hyd nes y byddai ffactorau amgylcheddol ehangach yn sefydlogi. Awgrymodd y cadeirydd, gan fod rhai colledion wedi'u gwneud hyd yma, y gellir eu hadennill neu beidio â chael eu hadennill o fewn y trefniant presennol erbyn diwedd y flwyddyn, a chan fod awydd i leihau unrhyw golledion pellach, fod ganddo ddiddordeb mewn clywed barn yr aelodau ar y mater.

Mewn ymateb i bwyntiau'r cadeirydd, anogodd y Cynghorydd Hooper yr aelodau i fyfyrio ar y potensial i chwyddiant ostwng gwerth unrhyw fuddsoddiadau arian parod, a dywedodd na fyddai, am y rheswm hwn, yn cefnogi buddsoddi'n llawn mewn opsiynau arian parod. Awgrymwyd mai dewis arall mwy diogel oedd mabwysiadu dull mwy cytbwys – buddsoddi'n rhannol mewn arian parod a symud i rai buddsoddiadau newydd wrth hefyd gadw rhai buddsoddiadau o fewn eu sefyllfa bresennol. Cydnabu'r cadeirydd, yn ei dro, ddilysrwydd pwyntiau'r Cynghorydd Hooper, a chytunodd y gallai rhannu buddsoddiadau fel hyn annog enillion cymedrol wrth osgoi colledion sylweddol.

Yn dilyn hynny, awgrymodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth mai dull arall oedd 'diferu' arian i CCLA, a allai hefyd arwain at rai o fanteision dull cytbwys neu ddull wedi'i rannu. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal sgyrsiau didwyll ac agored gyda CCLA ar eu rhagolygon ar gyfer y farchnad a'u hoff ddull o fuddsoddi. Ychwanegodd y swyddog y byddai Evelyn Partners yn paratoi gwybodaeth ychwanegol debyg i'r cyngor ei hystyried, ac y byddai canlyniadau trafodaethau o'r fath yn cael eu hadrodd yn ôl i'r pwyllgor maes o law.

Mynegodd y Cynghorydd Charles, y Cynghorydd Drake, y Cynghorydd Hamilton a'r Cynghorydd Morgan eu cymeradwyaeth i'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaed gan Reolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth, a chytunwyd bod mabwysiadu dull pwyllog yn briodol.

I gloi, awgrymwyd trefnu cyfarfod o'r pwyllgor cyn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023 er mwyn trafod gwybodaeth yn deillio o drafodaethau'r Rheolwr Gweithredol gydag Evelyn Partners a CCLA.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, roedd

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’r gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiad i £1.732m ar ddyddiad y prisiad diweddaraf.

(2) DERBYN canlyniad yr adolygiad ond bod y Pwyllgor yn parhau i edrych ar Evelyn Partners ynghyd â CCLA ac ystyried y darparwr mwyaf addas ar gyfer buddsoddiad y Pwyllgor a bod penderfyniad yn cael ei wneud mewn cyfarfod dilynol.

(3) CYMERADWYO dull opsiwn Cronfa Fuddsoddi ar y Cyd o Gronfa Foesegol.

(4) BOD adroddiad diweddaru’n cael ei gyflwyno i gyfarfod o’r Pwyllgor yn y dyfodol i ystyried ffordd addas ymlaen.

(5) CYN i unrhyw ddirprwyaethau gael eu cymeradwyo, bod yr adroddiad diweddaru ar Benderfyniad (4) uchod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o’r Pwyllgor sydd i’w gynnal erbyn diwedd y flwyddyn galendr cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ionawr 2023.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod yr Aelodau’n cael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a chyfansoddiad presennol y Portffolio Buddsoddi.

(2) Diweddaru’r Aelodau ar ganlyniad yr adolygiad opsiynau buddsoddi a gynhaliwyd gan Link Asset Management.

(3) Sicrhau yr ymrwymir i Gronfa Buddsoddiadau Cyfunol yn unol â’r Polici Buddsoddi y cytunwyd arno ag Ymddiriedolwyr Deddf Degwm.

(4&5) I’r Pwyllgor ei ystyried.

337 CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL 2022/23 CYFRAN 2 (CAC) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth yr adroddiad gan roi gwybod am y ceisiadau am gymorth ariannol a dderbyniwyd oddi wrth Gronfa Ystadau Deddf yr Eglwys yng Nghymru.

Roedd cyllideb o £40,000 wedi'i phennu ar gyfer rhoi grantiau yn ystod 2022/23. Roedd swm cyllideb heb ei ddyrannu o £5,250 a gariwyd drosodd o 2021/22 hefyd ar gael i'w ddyrannu yn ystod 2022/23. Cyfanswm y gyllideb grantiau ar gyfer

2022/23 oedd £45,250. Cyfanswm y grantiau a ddyrannwyd i'r pwyllgor ym mis Mehefin 2022 oedd £24,840. Argymhellwyd dyfarniad pellach o £10,000 fel rhan o'r adroddiad gyda swm yn weddill o £10,410 ar gael ar gyfer trydedd gyfran.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, nododd y Cynghorydd Hooper y croesawyd y cais at ddibenion goleuo Eglwys Efengylaidd Princes Street, o ystyried mai ei nod oedd lleihau ôl troed carbon yr eglwys. Yn ogystal, gofynnodd y Cynghorydd Hooper a oedd digon o amser i ymgeiswyr ddefnyddio unrhyw arian grant a ddyfarnwyd cyn diwedd y flwyddyn. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth, er efallai nad oedd amser cyn diwedd y flwyddyn ariannol i ddefnyddio arian, nad oedd hyn yn anarferol, ac y gallai dyraniadau gario drosodd i flynyddoedd ariannol y dyfodol. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol y ceisir diweddariadau cynnydd rheolaidd mewn achosion o'r fath gan sefydliadau sy'n derbyn grant, ac y gallai arian fel arfer gael ei dynnu'n ôl os nad oedd cynlluniau wedi symud ymlaen ar ôl tair blynedd.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Morgan, cytunodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifyddiaeth y byddai'n rhoi dadansoddiad o'r dyfarniad a argymhellwyd mewn perthynas â'r cais gan Eglwys y Bedyddwyr Tabernacl, Penarth, i'r pwyllgor. Croesawodd y cadeirydd y ffaith bod y cais hwn yn ceisio talu cyfran yn unig o gostau'r prosiect o'r gronfa. Heb unrhyw faterion pellach wedi'u codi gan aelodau'r pwyllgor ac wrth dderbyn na fyddai'r wybodaeth bellach ynglŷn ag Eglwys y Bedyddwyr Tabernacl yn rhwystro penderfyniad ar y cais, roedd wedi hynny:

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'r ceisiadau am gymorth grant fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

338 TIR YN GLEBE FIELDS, SILI – DIWEDDARIAD CAIS YMCHWILIAD MAES TREF A PHENTREF (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan Brif Gyfreithiwr y cyngor. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r newyddion diweddaraf i'r pwyllgor ar y cais i gofrestru Glebe Fields, Sili, fel maes tref a phentref.

Roedd yr ymddiriedolaeth wedi penodi Mr Michael Brett, bargyfreithiwr, i weithredu ar ei rhan mewn perthynas â'r cais. Roedd yr ymddiriedolaeth wedi cyflwyno gwrthwynebiad i'r cais ac roedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno ymateb i'r gwrthwynebiad. Dywedodd y Prif Gyfreithiwr fod ateb dilynol i ymateb yr ymgeisydd bellach wedi'i gyflwyno, mewn ymgynghoriad â bargyfreithiwr allanol y cyngor.

Yn dilyn yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gyfreithiwr, nid oedd y pwyllgor yn teimlo bod angen cynnal trafodaeth breifat i roi sylw manylach i'r ateb i ymateb yr ymgeisydd, a heb unrhyw ymholiadau na sylwadau, felly roedd:

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr Ymateb i’r ymateb i’r Gwrthwynebiad.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

339 CYNNIG PERLLAN GYMUNEDOL TREGATWG (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan Reolwr Gweithredol Eiddo. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynghylch penderfyniad cyfarfod diwethaf y pwyllgor mewn perthynas â'r cynnig am dir gerllaw St Oswald's Road, Tregatwg, ar gyfer cynnig perllan gymunedol a rhoi gwybod am ganlyniad ymchwiliadau cynllunio a chyfreithiol.

PENDERFYNWYD – Y DYLID nodi’r diweddariad ynghylch ymchwiliadau cynllunio a chyfreithiol ac ystyried y ffordd ymlaen o dan Rhan II o’r rhaglen.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a golluogi penderfyniad i gael ei wneud o dan Rhan II yr agenda.

340 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

341 CYNNIG PERLLAN GYMUNEDOL TREGATWG (CAC) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r pwyllgor gan Reolwr Gweithredol Eiddo. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor mewn perthynas â’r cynnig ar gyfer perllan gymunedol gan Gyngor Tref y Barri ar gyfer tir yn St Oswald's Road, Tregatwg, sy'n eiddo i'r ymddiriedolaeth.

Ar ôl i'r swyddog gyflwyno'r adroddiad, ac ar ôl ystyried ei gynnwys, aeth y pwyllgor ati

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’r cynnig gan Gyngor Tref y Barri mewn perthynas â’r tir ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth yn St Oswald’s Road, Tregatwg a’r diweddariad a ddarparwyd yn y cyfarfod mewn perthynas ag ystyriaethau cyfreithiol a chynllunio.

(2) Y DYLID cael adroddiad Syrfëwr Cymwys i hysbysu ystyriaeth bellach a phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth yn hyn o beth, ar yr amod bod Cyngor Tref y Barri yn ymrwymo i dalu costau'r Ymddiriedolaeth yn hyn o beth.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i'r cynnig gan Gyngor Tref y Barri yng nghyd-destun yr ystyriaethau cyfreithiol a chynllunio a phenderfynu ar benderfyniad ac ymateb addas.

(2) Er mwyn sicrhau bod gofynion y Gyfraith Elusennau yn cael eu dilyn yn ystod y broses benderfynu.

S.O. Gadawodd y Cynghorydd E. Williams y cyfarfod cyn ystyried mater Rhan II.